# Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Ddarparu Safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr

---

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am eu hadroddiad ar ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru. Rwy'n falch iawn o weld bod argymhellion y Pwyllgor yn gyson â'n cynlluniau presennol ac ar gyfer y dyfodol. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

**Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

**Argymhelliad 1**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd sy'n briodol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys sut y bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chymunedau i liniaru'r heriau o ddod o hyd i dir addas ar gyfer llety safleoedd i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr."

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r argymhelliad yn adlewyrchu bwriad polisi sydd wedi ei nodi o dan Nod 5 Cartrefi a Lleoedd (llety Sipsiwn a Theithwyr) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: "*Cydnabod bod angen llety diogel diwylliannol briodol er mwyn i unigolion ffynnu mewn rhannau eraill o'u bywydau ac er mwyn ymdrin â'r prinder safleoedd a'r llety o ansawdd gwael sydd ar gael i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru"* a'r camau gweithredu o dan y nod hwn.

Mae'r camau gweithredu o dan y nod hwn yn cynnwys gwaith ar gyllido, safleoedd tramwy, diweddaru canllawiau a hyfforddi awdurdodau lleol.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ac awdurdodau lleol unigol i ddatblygu rhwydwaith o ddarpariaeth ddarfodol, a sut y bydd yn monitro ac yn sicrhau cynnydd."

**Ymateb: Derbyn**
Mae ardystio rhwydwaith cenedlaethol o ddarpariaeth dramwy er mwyn hwyluso bywydau teithwyr, gan ystyried mannau aros wedi'u negodi, fel y bo'n briodol, yn un o'r camau gweithredu penodol sydd bellach yn cael eu symud ymlaen o dan y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 3**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trefniadau ar gyfer gwasanaeth cynghori annibynnol a dibynadwy ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys gofynion cyllido, adnoddau a sgiliau."

**Ymateb: Derbyn**

Mae datblygu'r gwasanaeth hwn yn gam gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol o dan y nod canlynol: *"Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn darparu ein gwasanaethau mewn ffordd ddiwylliannol gymwys a phriodol."*

Yn unol â'r cam gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu, rydym yn bwriadu caffael gwasanaeth i adlewyrchu'r gofynion hyn. Bydd hyn yn digwydd dros y tri mis nesaf.

**Goblygiadau ariannol** – Mae contract eisoes mewn lle a gellir talu'r costau parhaus o gyllidebau presennol o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol.

**Argymhelliad 4**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Tai (Cymru) 2014."

**Ymateb – Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos iawn gydag Awdurdodau Lleol er mwyn eu cefnogi i gyflawni eu dyletswyddau.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 5**
Mae’r Pwyllgor yn argymell:

“Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn effeithiol o ran darparu safleoedd addas ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Felly, dylai nodi sut y mae’n bwriadu tynhau’r modd y mae’n monitro gweithrediad y Ddeddf”

**Ymateb: Derbyn**

Mae’r broses o Asesu o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn fodd allweddol o sicrhau bod y Ddeddf Tai yn cael ei gweithredu mewn dull fydd yn cynhyrchu safleoedd addas.

Byddwn yn ystyried sut gellid cryfhau’r broses fonitro ymhellach wedi cwblhau’r broses asesu anghenion bresennol gan gymryd y cyfle i adlewyrchu ar yr hyn a ddysgwyd o’r rownd ddiweddaraf hon o asesiadau.

**Goblygiadau ariannol** – Mae’n bosibl y bydd monitro ychwanegol yn golygu amser staff ychwanegol ond gellir bodloni’r costau hynny o gyllidebau cyfredol o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol.

**Argymhelliad 6**
Mae’r Pwyllgor yn argymell:

“Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sut a phryd y bydd yn defnyddio ei phwerau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014”.

**Ymateb: Derbyn**

Y bwriad yw cydweithio gydag awdurdodau lleol mewn perthynas â’u Hasesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr a chefnogi’r broses o ddatblygu cynlluniau cryf sydd yn bodloni anghenion y cymunedau hynny.

Fel rhan o rôl Gweinidogion Cymru yn ystyried yr asesiadau cyfredol o anghenion llety, byddwn yn ystyried a oes angen gweithredu pellach. Bydd hyn yn cynnwys ystyried defnyddio pwerau cyfarwyddo, pan fo’n berthnasol, ac yn unol â’r dull gweithredu a nodir yn y ddeddfwriaeth a’r canllawiau cysylltiedig.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 7**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau, gan gynnwys amserlenni, ar gyfer gwerthuso pa mor effeithiol yw Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol o ran helpu i ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr."

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi diweddariad blynyddol ar y cynnydd a wnaed o safbwynt rhoi'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith. Rydym hefyd yn datblygu'r Fframwaith Mesur Cynnydd Strategol er mwyn darparu mesur tryloyw o gynnydd o safbwynt cyrraedd y nodau a'r weledigaeth a nodir yn y Cynllun Gweithredu.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 8**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlenni ar gyfer y camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sydd eisoes ar y gweill."

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio tuag at yr amserlenni a nodir yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol. Bydd diweddariad ar gynnydd yn cael ei gyflwyno i Grŵp Atebolrwydd y Cynllun yn ei gyfarfod cyntaf yn nhymor yr Hydref a byddwn yn sicrhau ein bod yn rhannu cynnydd ar gamau gweithredu sy'n berthnasol i'w gylch gwaith gyda'r Pwyllgor.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 9**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Wrth adolygu'r canllawiau ar safleoedd, dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn sicrhau bod anghenion dylunio a lleoliad cymunedau yn cael eu hadlewyrchu'n well yn y canllawiau."

**Ymateb: Derbyn**

Gwerthoedd y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yw - bod yn agored ac yn dryloyw, gan roi profiadau bywyd pobl wrth wraidd y gwaith a wnawn, a mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau. Yn unol â'r gwerthoedd hyn bydd ymgysylltu â Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth lunio unrhyw bolisïau neu ganllawiau perthnasol yn ganolog i'w datblygiad.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 10**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r holl ganllawiau sy'n ymwneud â darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr."

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol eisoes yn cynnwys camau gweithredu i adolygu canllawiau allweddol gan gynnwys canllawiau safleoedd.

**Goblygiadau ariannol** – Mae'r costau'n gysylltiedig ag amser staff a byddant yn ffurfio rhan o flaenraglen waith y tîm perthnasol.

**Argymhelliad 11**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am y cymorth dysgu a datblygu a fydd yn cael ei roi i aelodau etholedig awdurdodau lleol ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Dylai hyn gynnwys manylion am: pwy fydd yn cael yr hyfforddiant; amserlenni; sut y caiff ei ariannu a'i ddarparu; ac a fydd yn ofyniad statudol i ymgymryd â'r hyfforddiant."

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cynnwys cam gweithredu penodol i ddatblygu'r hyfforddiant hwn. Bydd datblygiad manwl y rhaglen ddysgu a datblygu yn digwydd yn 2023 a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu wrth i'r cwmpas gael ei ddiffinio.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws Llywodraeth Cymru i gysylltu'r amrywiaeth o ofynion dysgu a datblygu angenrheidiol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a nodir yn y Cynllun Gweithredu er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael yr effaith fwyaf.

**Goblygiadau ariannol** – Mae'r costau'n gysylltiedig ag amser staff a byddant yn ffurfio rhan o flaenraglen waith y tîm perthnasol.

**Argymhelliad 12**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n bwriadu gwerthuso'r effaith y bydd yr hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig awdurdodau lleol yn ei chael ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr."

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y dull gwerthuso arfaethedig ar gyfer effaith yr hyfforddiant yn cael ei nodi wrth iddo gael ei gomisiynu.

**Goblygiadau ariannol** – Mae darpariaeth wedi ei gwneud wrth gytuno ar y camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu a bydd yn cael ei thynnu o Linell Wariant yn y Gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol.

**Argymhelliad 13**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cynghorwyr cymuned yn yr ymrwymiad yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i ddarparu hyfforddiant i aelodau etholedig awdurdodau lleol ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr."

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai ymestyn mynediad at hyfforddiant ar ddiwylliant, anghenion, a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr i aelodaeth etholedig awdurdodau lleol o gymorth. Byddwn yn ceisio adeiladu hyn i'r cynlluniau ar gyfer yr hyfforddiant ac yn sicrhau y gall y model darparu ehangu'n gyflym heb ychwanegu yn sylweddol at y costau.

**Goblygiadau ariannol** – Mae darpariaeth wedi ei gwneud wrth gytuno ar y camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac mae'r gyllideb yn cael ei darparu yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol. Bydd costau ehangu cymhwystra i fynychu yn cael eu reoli drwy fodel darparu a allai gael ei ehangu.

**Argymhelliad 14**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau, ar wahân i'r rhai yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol, y bydd yn eu cymryd i wella gwybodaeth a

dealltwriaeth y gymuned ehangach o ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr."

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn adlewyrchu'r camau allweddol nesaf i wella gwybodaeth a dealltwriaeth y gymuned ehangach o ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae camau pwysig mewn perthynas ag addysg yn ogystal â thai. Rydym yn derbyn y bydd angen cymryd camau gweithredu pellach ond byddwn yn gwerthuso effaith y camau cychwynnol hyn, ac yn ymgysylltu gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er mwyn pennu y lle gorau i dargedu camau pellach yn ystod ail hanner tymor y Senedd hon.

**Goblygiadau ariannol** – Mae'r costau'n gysylltiedig ag amser staff a byddant yn ffurfio ran o flaenraglen waith y tîm perthnasol.

**Argymhelliad 15**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ai'r broses bresennol ar gyfer Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yw'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o asesu anghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr."

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y broses ar gyfer cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a ffyrdd posibl o'i chryfhau a pha ddulliau eraill allai fod yn ymarferol ar ôl cwblhau'r rownd bresennol o asesiadau anghenon llety.

**Goblygiadau ariannol** – Mae'r costau'n gysylltiedig ag amser staff a byddant yn ffurfio ran o flaenraglen waith y tîm perthnasol.

**Argymhelliad 16**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu sut y gellir gwella gwaith ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y broses o gynnal asesiadau llety, gan gynnwys i ba raddau y mae'r mesurau a'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol wedi gwneud gwahaniaeth."

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo, drwy'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, i roi profiadau bywyd pobl wrth wraidd y gwaith a wnawn a mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau. Yn unol â'r gwerthoedd hynny, byddwn yn ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn unrhyw asesiad o'r broses asesu anghenion llety, gan gynnwys ystyried pa mor effeithiol yw'r broses o ymgysylltu ac ymgynghori.

**Goblygiadau ariannol** – Mae'r costau'n gysylltiedig ag amser staff a byddant yn ffurfio ran o flaenraglen waith y tîm perthnasol.

**Argymhelliad 17**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa broses sydd ar waith i fonitro'r Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar sail Cymru gyfan er mwyn cael dealltwriaeth o'r anghenion llety ar lefel genedlaethol yn ogystal ag ar lefel leol."

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a'r ddarpariaeth y maent yn ei gynrychioli.

Fel rhan o'r hyn a ddysgwyd o'r rownd gyfredol o Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, byddwn yn datblygu darlun cenedlaethol o anghenion a darpariaeth llety ar draws Cymru.

**Goblygiadau ariannol**– Mae'r costau'n gysylltiedig ag amser staff a byddant yn ffurfio ran o flaenraglen waith y tîm perthnasol.

**Argymhelliad 18**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad ehangach o sut mae'r cyllid ar gyfer datblygu safleoedd yn ymwneud â'r gofynion o ran safonau safleoedd."

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cynnwys cam gweithredu penodol i adolygu'r polisi cyllido cyfredol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ac asesu ei effeithiolrwydd. Byddwn yn sicrhau bod yr adolygiad hwn yn ystyried sut gall cyllid gefnogi gofynion o ran safonau.

**Goblygiadau ariannol** – Mae'r costau'n gysylltiedig ag amser staff a byddant yn ffurfio ran o flaenraglen waith y tîm perthnasol.

**Argymhelliad 19**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pob opsiwn posibl ar gyfer ariannu anghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys a ddylid ehangu'r meini prawf ar gyfer y Grant Cyfalaf Safleoedd er mwyn i awdurdodau lleol allu prynu tir ar gyfer datblygu safleoedd newydd a sut y gellid defnyddio cyllid i gefnogi datblygiad safleoedd preifat."

**Ymateb: Derbyn**

Fel y nodwyd yn yr ymateb i'r argymhelliad diwethaf, mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cynnwys cam gweithredu penodol i adolygu'r polisi cyllido cyfredol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ac asesu ei effeithiolrwydd, gyda'r bwriad i dreialu ffyrdd ychwanegol neu newydd o gyllido darpariaeth safleoedd, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer safleoedd preifat erbyn 2024.

**Goblygiadau ariannol** – Mae'r costau'n gysylltiedig ag amser staff a byddant yn ffurfio ran o flaenraglen waith y tîm perthnasol.

**Argymhelliad 20**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed i ddarparu lleiniau tramwy ledled Cymru cyn toriad yr haf y Senedd yn 2023."

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed i ddarparu lleiniau tramwy cyn toriad yr haf yn 2023 fel y gofynnwyd.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 21**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

"Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda'r heddlu a sefydliadau partner i gyfathrebu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr am unrhyw newidiadau a ragwelir i gynlluniau i orfodi Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 yng Nghymru"

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos â'r heddlu ar y mater hwn, fodd bynnag, bydd y Pwyllgor yn ymwybodol mai cyfrifoldeb Swyddfa Gartref y DU yw llywodraethu a gweinyddu gwasanaeth yr heddlu yn y pen draw.

Fel y Pwyllgor, rwy'n croesawu'r dull cymesur 'ymgysylltu'n gyntaf' a gymerwyd gan yr heddlu o safbwynt gorfodi. Rwyf wedi cael sicrwydd mai fel opsiwn olaf yn unig y mae'r heddlu yn bwriadu defnyddio pwerau newydd y Ddeddf. Bydd ymateb aml asiantaeth yn parhau i gael ei fabwysiadu er mwyn ymdrin â gwersylloedd diawdurdod.

Rwy'n cyfarfod yn fisol â phrif Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Cymru, sef Jeff Cuthbert, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent ar hyn o bryd. Yn ein cyfarfod diwethaf ym mis Gorffennaf fe wnaethom gytuno i gadw'r mater hwn fel eitem reolaidd ar yr agenda pan fyddwn yn cyfarfod.

Mae'r heddlu wedi cadarnhau eu bod yn hapus i briffio cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ynglŷn â'u safbwynt o ran gweithredu'r Ddeddf, i dawelu meddyliau ac i sicrhau bod pethau'n eglur. Mae swyddogion yn ymgysylltu gydag Uned Gyswllt yr Heddlu a byddant yn ymgysylltu gyda sefydliadau sy'n cynrychioli'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn canfod y ffordd orau o hwyluso'r sgwrs hon.

Dylai lleisiau'r cymunedau Sipsiwn Roma a Theithwyr fod wrth galon y trafodaethau hyn er mwyn cynorthwyo'r heddlu i ddeall ac ymateb i bryderon cymunedau.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

**Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**